

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth
Gyhoeddus - Ymchwiliad i Gomisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

1. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i Gomisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn.
2. Er mwyn helpu i lywio ystyriaethau'r Pwyllgor, rydym wedi nodi isod y cyd-destun y mae AGC yn cofrestru, yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru ynddo. Rydym wedi nodi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a'n gweithgarwch ynddo.

Rôl AGC

3. AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.
4. Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae ein hannibyniaeth yn cael ei hamddiffyn drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Prif Arolygydd a'r Gweinidogion Cymru perthnasol. Mae copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar gael ar wefan AGC: <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2021-07/210720-Memorandwm-Cyd-ddealltwriaeth-Gweinidogion-Cymru-cy.pdf>.

Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru – argymhellion

5. Mae AGC wedi bod yn ymwybodol o astudiaeth Archwilio Cymru yng Ngogledd Cymru trwy ein cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol rheolaidd gyda chyrrff archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru. Rydym yn ymateb yma i'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad cenedlaethol. Nid ydym wedi gwneud sylwadau ar y rhai sy'n codi o waith archwilio lleol Archwilio Cymru yng Ngogledd Cymru.
6. **A1 – Gwaith diwygio polisi wedi'i gynllunio a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion hyn:** Mae AGC yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud ar 'Ailgydbwysio Gofal Cymdeithasol' ac mae AGC yn ymwneud â nifer o grwpiau gorchwyl sy'n symud ymlaen â hyn, gan gynnwys datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd hyn yn mynd i'r afael â gwraidd y problemau a nodwyd yng Ngogledd Cymru.
7. **A2 – Lleihau cymhlethdod cyfrifoldebau ariannu:** Rydym yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt y bobl sydd angen gofal a chymorth a'u teuluoedd, yn ogystal ag ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol. Gall y cymhlethdodau presennol mewn perthynas â gofal nyrsio a ariennir a gofal iechyd parhaus, ar adegau, beryglu'r ffordd y caiff anghenion gofal pobl eu diwallu, a'r graddau y maent yn cael eu diwallu.
8. **A2 – Cronfeydd a gydgasglwyd:** Fel rheoleiddiwr gofal cymdeithasol, nid oes gan AGC farn ar y defnydd o gronfeydd a gydgasglwyd. Cylch gorchwyl Archwilio

Cymru yw hwn. Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn disgrifio'r hyblygrwydd a nodir yn adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sy'n galluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i ddatblygu partneriaethau ffurfiol ac i ddirprwyo swyddogaethau o un corff i'r llall. Dim ond un agwedd ar hyn yw cronfeydd a gydgasglwyd gan fod adran 33 hefyd yn galluogi gwaith i ddatblygu gwasanaethau integredig a chomisiynu integredig.

9. **A2 – Trefniadau craffu cryfach:** Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gymhleth, yn enwedig ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mawr fel Gwent a Gogledd Cymru. Mae hyn yn ei dro yn gwneud gwaith craffu'n heriol. Fel cyrff craffu allanol, nid oes gan AGC, nac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), bwerau cyfreithiol i adolygu neu wneud argymhellion i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dim ond i'r awdurdodau lleol unigol a bwrdd iechyd cyfansoddol.
10. Mae cynllun gweithredu 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cam gweithredu canlynol: *Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a rhanddeiliaid eraill i adolygu effeithiolrwydd cydweithio'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol* ([cymru-iachach-camau.pdf](#) ([llyw.cymru](#))). Yn 2021/22, cyfrannodd AGC ac AGIC at hunanasesiad peilot o ddau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y peilot yn canolbwyntio ar y broses hunanasesu. Rydym yn trafod y camau nesaf ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru o ran symud ymlaen â'r cam hwn.
11. **A2 – Perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau:** Mae'n heriol priodoli canlyniadau gwell i bobl yn uniongyrchol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ein barn ni, wrth i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol aeddfedu, maent yn dechrau sefydlu'r amodau ar gyfer gwella canlyniadau i bobl drwy weithio'n agosach mewn partneriaeth. Mae pellter i'w deithio o hyd.
12. Gan mai dim ond ym mis Ebrill 2020 y daeth cod ymarfer newydd yn ymwneud â pherfformiad a gwelliant gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i rym, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd, yn enwedig gan fod y pandemig wedi arafu'r broses o'i weithredu ([mesur-gweithgarwch-a-pherfformiad-canllawiau-2020-21.pdf](#) ([llyw.cymru](#))). Conglfaen y cod ymarfer yw safonau ansawdd sy'n gysylltiedig â saith nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol y mae'r fframwaith perfformiad hwn, nid byrddau iechyd na Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae AGC wedi bod yn rhan o waith Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â Chymru Iachach, i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyd. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gallai helpu i ddatblygu argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer adrodd ar berfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl hŷn, cyflwr y farchnad cartrefi gofal ac ansawdd y ddarpariaeth

13. Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Fframwaith Comisiynu: Canllawiau ac Arfer Da' ac mae'r elfennau allweddol yn parhau i fod yn berthnasol heddiw

(https://ipc.brookes.ac.uk/files/publications/Commissioning_framework_guidance_and_good_practice.pdf). Mae'r cylch comisiynu yn cynnwys gwaith o ddadansoddi anghenion a chynllunio'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl. Mae'r gwaith o gomisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn yn rhan annatod o'r gwaith o gomisiynu/datblygu ystod o wasanaethau eraill, gan gynnwys atal ac ymyrraeth gynnar, ail-alluogi, tai gofal ychwanegol a chymorth cartref. Mae'r galw am y gwasanaethau hyn a'u hargaeledd yn effeithio ar yr angen am wasanaethau cartrefi gofal. Ni ddylid comisiynu cartrefi gofal ar eu pen eu hunain.

14. Bwriad y gwaith o gyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') oedd gwella ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau i bobl. Roedd AGC ond newydd gwblhau'r broses o ailgofrestru cartrefi gofal o dan Ddeddf 2016 pan darodd y pandemig. Roedd ei effaith yn golygu y tarfwyd ar y gwelliannau mewn ansawdd a ragwelwyd gan y ddeddfwriaeth newydd tra oedd darparwyr yn canolbwyntio ar gynnal lefelau craidd o ofal a chymorth i gynnal iechyd a llesiant pobl.
15. O safbwynt AGC, mae cyflwr cyffredinol y farchnad cartrefi gofal yn fregus. Mae Adroddiad Blynyddol 2020-2021 ein Prif Arolygydd yn rhoi manylion am effaith pandemig COVID-19 ar bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal ledled Cymru (<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2021-08/210818-adroddiad-blynyddol-y-prif-arolygydd-2020-2021-cy.pdf>). Mae cartrefi gofal yn parhau i gael achosion o COVID-19 sy'n effeithio ar lefelau staffio ac yn atal derbyniadau newydd. Nid yw AGC yn cadw gwybodaeth am gyfraddau swyddi gwag gan fod y rhain yn newid bob dydd. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2022, gwnaeth 42 o gartrefi gofal i oedolion roi'r gorau i weithredu a chafodd 25 o gartrefi gofal newydd eu cofrestru gydag AGC (ym mis Ebrill 2022, mae 1,033 o gartrefi gofal cofrestredig i oedolion).
16. Rydym yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o arolygu gwasanaethau lle mae gennym bryderon ac i wneud gwaith dilynol ar y gwelliannau sydd eu hangen o ganlyniad i'n camau gorfodi. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, fe wnaethom gyhoeddi hysbysiadau gorfodi i sicrhau gwelliant i 342 o gartrefi gofal i oedolion. Mae ansawdd yn cael ei danseilio mewn sawl ffordd, gan gynnwys arweinyddiaeth wael (diffyg goruchwyliaeth), anawsterau o ran cynnal a chadw'r amgylchedd oherwydd diffyg crefftwyr a/neu ddeunyddiau, diffyg staff, a threfniadau rhy gyfyngol ar gyfer ymweld. Mae offeryn data ar-lein AGC yn darparu gwybodaeth am gamau gorfodi ar lefel genedlaethol a lefel leol. Gellir cael mynediad at yr offeryn data trwy'r ddolen ganlynol: [Offeryn Data | Arolygiaeth Gofal Cymru](#). Byddwn yn cynhyrchu adroddiad ar y themâu sy'n codi o'r arolygiadau hyn yn ddiweddarach yn 2022.
17. Er mai Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu, rydym yn gwybod o'n harolygiadau bod recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn heriol iawn.

Safbwynt AGC ar effaith pandemig COVID-19 ar ein gweithgareddau

18. Ar 16 Mawrth 2020, gwnaethom ohirio ein rhaglen arolygu arferol. Gwnaethom hyn i leihau'r risg o'n harolygwyr yn trosglwyddo'r feirws heb fod yn arddangos

symptomau ac i sicrhau y gallai awdurdodau lleol a darparwyr gofal ganolbwyntio eu hadnoddau ar gynnal iechyd a diogelwch y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u staff.

19. Ein blaenoriaeth allweddol oedd rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a Gweinidogion ynghylch diogelwch gwasanaethau. Fe wnaethom addasu ein prosesau yn gyflym, gan groesawu technoleg i'n galluogi i gyflawni ein swyddogaethau statudol mor ddiogel â phosibl. Mae copi o'r datganiad a gyhoeddwyd gennym ar ein gwefan ym mis Mai 2020 am ein dull o roi sicrwydd wedi'i atodi yn Atodiad A. Cyhoeddwyd datganiadau wedi'u diweddarau drwy gydol y pandemig, a chyhoeddwyd y datganiad diweddaraf ym mis Awst 2021:
<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2021-08/210805-Ein-dull-roi-sicrwydd-cy.pdf>.
20. Rhwng 30 Mawrth a mis Awst 2020, gwnaethom 10,958 o alwadau 'dal i fyny' i'r holl wasanaethau oedolion a phlant. Ein nod oedd deall sut roedd darparwyr yn ymdopi yn ystod y pandemig a chynnig cymorth, gan gyfeirio gwasanaethau at ffynonellau arweiniad a chynghor fel y bo'n briodol.
21. O fis Mehefin 2020, gyda phrofion a chyfarpar diogelu personol ar gael, gwnaethom ailddechrau arolygiadau, yn dilyn asesiadau risg, lle roedd gennym bryderon am ddiogelwch a llesiant pobl. Roedd hyn yn cynnwys cartrefi gofal lle bu brigiad o achosion COVID-19 os oedd ein pryderon mor ddifrifol nad oeddem am aros nes bod y brigiad wedi dod i ben. Rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2022, gwnaethom gynnal 1,464 o arolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig i oedolion a phlant.
22. Rydym wedi gweithio'n gydgyhyrchiol gyda'r sector a phartneriaid i ymateb i'r digwyddiadau digynsail drwy gydol y pandemig. Mae hyn wedi cynnwys hwyluso cyfathrebiadau rheolaidd a gweminarau ar-lein i ddarparwyr i'w galluogi i fod yn ymwybodol o ganllawiau sy'n newid yn gyflym. Gwnaethom hefyd ddarparu adran 'Cwestiynau Cyffredin' ar ein gwefan, a oedd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd.
23. Rydym wedi bod yn y sefyllfa unigryw o fod â throswlg o'r sector, ac â chysylltiadau ag ef, yn genedlaethol. Ym mis Medi 2020, gwnaethom gyhoeddi 'Trosolwg o adborth gan y sector gofal cymdeithasol' yn seiliedig ar alwadau 'dal i fyny' AGC gyda darparwyr gwasanaethau cofrestredig i oedolion a phlant. Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan:
<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2020-09/200925-COVID-19-Trosolwg-adborth-gan-sector-gofal-cymdeithasol-cy.pdf>.
24. Gwnaethom hefyd gynnal gwiriadau sicrwydd o bob awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau statudol. Gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau mewn 'adroddiad trosolwg cenedlaethol' ym mis Tachwedd 2021. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan:
<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2021-11/211104-adroddiad-trosolwg-cenedlaethol-o-archwiliadau-sicrwydd-cy.pdf>.

Rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19 Mai 2020

1. Datganiad o ddiben

Yn ystod argyfwng COVID-19, ein blaenoriaeth yw parhau i roi sicrwydd i'r cyhoedd a Gweinidogion fod y gwasanaethau rydym yn eu harolygu a'u rheoleiddio yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hybu diogelwch a llesiant pobl. Rydym yn dilyn tri phrif egwyddor:

- byddwn yn canolbwyntio ein gweithgarwch lle mae ei angen fwyaf er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel – mae hyn yn golygu canolbwyntio ar y meysydd hynny lle rydym o'r farn bod y risg i ansawdd y gofal ar ei huchaf, a lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf
- byddwn yn cefnogi darparwyr drwy ystyried sut y gallwn weithredu'n hyblyg ac yn gymesur
- byddwn yn anrhydeddu ein dyletswydd i ofalu am ein cydweithwyr yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn addasu ein gwaith craffu gan sicrhau na fydd AGC yn peri risg afresymol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, staff y gwasanaethau hynny na staff AGC, a byddwn yn gweithio yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- cyflawni dyletswyddau statudol AGC i fonitro diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, heb ychwanegu baich afresymol at system sy'n delio â heriau digynsail ar hyn o bryd
- hyrwyddo tryloywder am yr ymateb i COVID-19 a sicrhau y gellir dysgu gwersi'n gyflym

2. Trosolwg o'n trefniadau sicrwydd a monitro

Rydym yn cynnal y gweithgareddau goruchwylio canlynol. Mae'r rhain yn debygol o gael eu cynnal ar yr un pryd.

1. Deall a monitro effaith newidiadau i bolisiau

- ystyried effaith pwerau cyfreithiol newydd yn ymwneud â gofal plant a gofal cymdeithasol a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb ar gyfer gwasanaethau a phobl
- monitro'r defnydd o'r pwerau newydd i agor gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru o dan ddeddfwriaeth frys COVID-19

2. Sefydlu llinellau cyfathrebu er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth ganlynol (nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr) ei chyflwyno'n rheolaidd a'i choladu gan AGC

- cysylltu â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn rheolaidd
- cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- cysylltu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru yn rheolaidd
- cyfrannu at gyfarfodydd COVID-19 a arweinir gan Lywodraeth Cymru
- adroddiadau dyddiol ar y sefyllfa gan Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru
- gwybodaeth a geir drwy ohebiaeth a galwadau ffôn ag AGC
- gwybodaeth gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol
- gwybodaeth gan sianeli cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol
- coladu gwybodaeth a geir drwy alwadau ffôn am sgwrs â darparwyr
- coladu gwybodaeth a geir o drafodaethau ag awdurdodau lleol
- galwadau wythnosol ag EPSO (Partneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwylio) er mwyn deall dulliau gweithredu arolygiaethau eraill yn rhyngwladol

3. Dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd i asesu risgiau a phennu blaenoriaethau

- nodi problemau a phryderon penodol mewn gwasanaethau/awdurdodau lleol unigol, er enghraifft:
 - prinder staff aciwt
 - clystyrau o achosion o COVID-19 a marwolaethau o ganlyniad i'r haint
 - pryderon am arweinyddiaeth
 - pryderon sy'n codi am allu ac adnoddau lleol a chymesuredd yr ymateb
 - achosion presennol o ddiffyg cydymffurfio
 - darparwyr nad ydynt yn dilyn canllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru / byrddau iechyd lleol wrth ymateb i COVID-19
- nodi themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws gwasanaethau/awdurdodau lleol, er enghraifft:
 - prinder cyfarpar
 - prinder staff
 - digonolrwydd lleoliadau
 - llai o atgyfeiriadau diogelu
- defnyddio gwybodaeth i wneud argymhellion ar sail risg ar gyfer monitro a/neu arolygu (diweddariadau wythnosol)

4. Dull monitro mwy gweithredol os bydd y gwaith dadansoddi uchod yn awgrymu bod angen hynny. Gallai hyn gynnwys un neu fwy o'r camau gweithredu canlynol:

- hysbysu darparwyr / awdurdodau lleol / byrddau iechyd / Llywodraeth Cymru am ein pryderon yn ysgrifenedig a gofyn am ymateb
- ceisio gwybodaeth drwy ddulliau rhithwir gan wasanaethau penodol
- cynnal cyfarfodydd sicrwydd ag uwch-arweinwyr awdurdodau lleol
- cynnal ymweliadau arolygu â gwasanaethau

3. Sut y byddwn yn monitro

Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru â ni, byddwn yn canolbwyntio ar ddiogelwch pobl a sicrhau y caiff hawliau pobl eu cynnal. Byddwn hefyd yn edrych ar arweinyddiaeth gwasanaethau, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau llesiant staff, rheoli achosion o COVID-19 a rheoli heintiau.

Ein nod yw gweithio'n agos gyda chomisiynwyr a sefydliadau eraill er mwyn lleihau'r baich ar ddarparwyr a sicrhau y caiff cymorth ei gydgyssylltu.

Rhan allweddol o'r dull gweithredu yw ffonio gwasanaethau a chael sgysiau agored a gonest fel y gallwn helpu darparwyr i ddatrys unrhyw broblemau a gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel.

Bydd ein sgysiau dros y ffôn yn ein helpu i ddeall ac archwilio'r canlynol:

- y pwysau a'r heriau a wynebwr gan ddarparwyr gofal a'r system gofal yn ehangach
- sut mae gwasanaethau'n defnyddio dulliau rheoli arloesol, fel y gallwn rannu'r gwersi i'w dysgu

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am wasanaethau gan ffynonellau presennol a ffynonellau newydd i benderfynu a oes angen i ni gysylltu am sgwrs gefnogol dros y ffôn, neu ba mor aml y mae angen i ni wneud hynny. Byddwn hefyd yn defnyddio ein gwybodaeth ychwanegol a'n profiad o wasanaethau unigol i flaenoriaethu galwadau. Rydym ar gael i gynnig cymorth i bob darparwr yn ystod y cyfnod anodd hwn ac rydym yn eu hannog i'n ffonio os bydd angen cyngor arnynt.

Bydd gwasanaeth y mae gennym bryderon amdano neu sydd ar ein llwybr gorfodi yn cael mwy o gyswllt gan ei arolygydd, gan y byddwn yn parhau i fonitro'r gwasanaeth ac i ymgysylltu ag ef nes y bydd y cyfnod brys drosodd. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu y gallwn dargedu ein cymorth a'n camau gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Byddwn hefyd yn diweddarau ein Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan (<https://arolygiaethgofal.cymru/coronafeirws-covid-19-cwestiynau-cyffredin>).

Pryderon penodol am gartrefi gofal

Dengys profiad a thystiolaeth AGC fod cartrefi gofal yn wynebu risg anarferol o uchel yn ystod y pandemig presennol. Mae pryderon penodol yn cynnwys:

- materion amgylcheddol mewn rhai cartrefi gofal, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi a rennir
- tebygolrwydd uwch o iechyd corfforol gwael presennol, ynghyd â phroblemau o ran y system imiwnedd ac iechyd anadlol
- pobl heb alluedd meddyliol i gydymffurfio â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol
- tebygolrwydd uwch o iechyd meddwl gwael, y gall yr angen i ynysu a diffyg ymweliadau a gweithgareddau effeithio arno ymhellach
- gall prinder staff a morâl isel effeithio ar allu'r gwasanaeth i ofalu am bobl

Gweithgareddau monitro mewn gwasanaethau oedolion a phlant

Mae gweithgareddau monitro yn cynnwys:

- galwadau ffôn rheolaidd â darparwyr am sgwrs casglu gwybodaeth drwy holiaduron a'i storio ar ein system rheoli cofnodion ar-lein (CaSSI) Yna, caiff themâu eu coladu a'u dadansoddi
- dadansoddi hysbysiadau yn ymwneud â COVID-19 yn ddyddiol. Cynnal trafodaethau dilynol â darparwyr lle bo angen (er enghraifft, niferoedd uchel) gan gofnodi'r ymateb ar CaSSI
- dadansoddi nifer y marwolaethau a gofnodwyd mewn cartrefi gofal yn ddyddiol. Cynnal trafodaethau dilynol â darparwyr lle bo angen (er enghraifft, niferoedd uchel) gan gofnodi'r ymateb ar CaSSI
- cyswllt wythnosol â thimau comisiynu awdurdodau lleol er mwyn rhannu gwybodaeth am ddarparwyr
- mynd ar drywydd pob achos o ddiffyg cydymffurfio heb ei ddatrys drwy anfon llythyr yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd
- ystyried pob pryder a godwyd a mynd i'r afael ag ef yn ôl yr angen

Caiff y wybodaeth a gesglir fel rhan o'n gweithgareddau monitro ei dadansoddi a'i thriongli er mwyn nodi gwasanaethau dan bwysau. Caiff y rhain eu hystyried gan uwch-reolwyr yn unol â'r broses a nodir mewn canllawiau mewnol.

Gweithgareddau monitro mewn gwasanaethau Gofal plant a Chwarae

Mae gweithgareddau monitro yn cynnwys:

- monitro pryderon a godwyd a mynd i'r afael â nhw gyda gwasanaethau yn ôl yr angen
- monitro hysbysiadau am achosion o COVID-19 a chynnal trafodaethau dilynol â gwasanaethau
- monitro hysbysiadau am lacio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan gynnwys y gallu i gynyddu niferoedd, a chynnal trafodaethau dilynol â gwasanaethau

- cynnal cyfarfod misol â swyddogion arweiniol gofal plant awdurdodau lleol
- cynnal cyfarfod misol â chynrychiolwyr rhanddeiliaid drwy 'Cwlwm'
- mynd ar drywydd pob achos o ddiffyg cydymffurfio heb ei ddatrys drwy anfon llythyr yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd
- blaenoriaethu galwadau ffôn am sgwrs â gwasanaethau sy'n dal i weithredu yn ôl dyddiad yr arolygiad diwethaf neu'r meysydd o bryder a nodwyd
- cymryd camau gorfodi priodol lle bo angen

Ymweliadau arolygu

Lle bydd ein gweithgareddau monitro yn nodi pobl a all wynebu risg uwch, mae'n bosibl y bydd angen i ni gynnal ymweliad arolygu. Dim ond lle na fydd ein gweithgareddau monitro oddi ar y safle, gan gynnwys gwaith ymgysylltu â'r darparwr, wedi darparu digon o dystiolaeth i'n bodloni bod pobl yn ddiogel neu lle bydd pryderon wedi cael eu codi y gellir ond eu hystyried yn iawn ar y safle, y bydd hyn yn digwydd. Wrth gynnal arolygiad, byddwn yn gwneud y canlynol:

- treulio cyn lleied o amser ar y safle ag sydd ei angen arnom i asesu'r sefyllfa a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol
- darparu Cyfarpar Diogelu Personol i arolygwyr yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru
- chwilio am wirfoddolwyr ymhlith staff heb gyfrifoldebau gofalu/cyflyrau iechyd sylfaenol
- lle y bo angen, cynnal ymweliadau ar y cyd â swyddog diogelu'r cyhoedd naill ai o Iechyd Cyhoeddus Cymru neu'r awdurdod lleol

Lle bydd angen i ni gymryd camau, byddwn yn dilyn ein proses sicrhau gwelliant a gorfodi (<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2020-01/200121-polisi-ar-sicrhau-gwelliant-a-gorfodi-cy.pdf>).

O ran awdurdodau lleol, rydym yn awyddus i wybod sut y caiff prosesau diogelu eu rheoli a sut y caiff hawliau pobl eu cynnal. Byddwn hefyd yn monitro arweinyddiaeth gwasanaethau, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cefnogi'r sector gofal cymdeithasol, rheoli achosion o COVID-19 a rheoli heintiau. Mae ein gweithgareddau'n cynnwys:

- ysgrifennu i bob awdurdod lleol yn ceisio sicrwydd ynghylch diogelu
- cysylltu â phenaethiaid/cyfarwyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd
- cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â phryderon sy'n codi
- cynnal trafodaethau rheolaidd â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu gwybodaeth

Byddwn yn parhau â'n gweithgareddau sicrwydd ychwanegol mewn perthynas ag awdurdodau lleol sy'n destun pryder. Gall hyn gynnwys gwaith ymgysylltu strwythuredig rheolaidd ag uwch-arweinwyr, adolygiadau sicrwydd a monitro ychwanegol a sgwrsiau â chydreoleiddwyr.

4. Ein dull o ymdrin â cheisiadau i gofrestru

Rydym wedi addasu ein prosesau cofrestru er mwyn ein galluogi i barhau i brosesu ceisiadau i gofrestru ac amrywiadau. Rydym yn ail-flaenoriaethu gwaith er mwyn creu mwy o gapasiti ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant a chwarae.

5. Gweithgarwch arall i gefnogi ein hymateb i COVID-19

Rydym yn parhau i ddarparu un pwynt cyswllt i ddarparwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Gwnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd ag AGIC er mwyn annog pobl i rannu unrhyw bryderon â ni.

Mae ein tîm gwybodaeth yn casglu ac yn dadansoddi data er mwyn llywio gweithgarwch monitro yn ogystal â gwaith cynllunio a llunio polisiau cenedlaethol.

Mae cyfathrebu clir rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol yn hollbwysig yn ystod y pandemig. Byddwn yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

- rhannu gohebiaeth a gwybodaeth â darparwyr ar ran Llywodraeth Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru
- cyfrannu at y bwletin wythnosol a gyd-gysylltir gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr cofrestredig Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- diweddarau gwefan AGC, gan gynnwys y Cwestiynau Cyffredin a'r adnoddau defnyddiol, yn rheolaidd
- rhannu diweddariadau rheolaidd â sefydliadau cynrychioliadol